# LLINYN ARIAN

## Cylchgrawn Capel Salem, Caernarfon .Nadolig 2023

**Gwnaeth pawb fu yn y noson Nadoligaidd nos Lun 4 Rhagfyr fwynhau'r Cwis yn arw iawn. Dyma fwy o gwestiynnau i chi !**



**1.Pwy yw awdur y geiriau :**

**Mae'r nos yn fwyn ym Methlehem**
**a chlyd yw'r gwely gwair**

______________________________

**2. Suai'r gwynt, suai'r gwynt**
**wrth fyned heibio'r drws**

______________________________

**3 Y llinell nesaf**

**'Rhown glod i'r Mab bychan, ar liniau Mair wiwlan,**

______________________________

**4 . Nid ym mhreseb yr anifail y ceir eto' i weled ef**

______________________________

**5 . Yn y nef gogoniant**

______________________________

**6. Yr enw sydd ar bedair cannwyll yr adfent ?**

**1…………………………...2,………………………….**

**3…………………………..4…………………………...**

***'Ymhlith holl ryfeddodau'r nef,***
***Hwn yw y mwyaf un—***
***Gweld yr anfeidiriol , ddwyfol , Fod***
***Yn gwisgo natur dyn.' W.W ( (292 C Ff)***



**Gair gan y Gweinidog**



Mae canu carolau yn rhan fawr o ddathlu'r Nadolig dydi? Yn y geiriau ac alawon gallwn agosau at Dduw ac yn aml dyfnhau ein ffydd dros gyfnod yr Adfent a'r Nadolig. Ond mae'n rhaid gofyn y cwestiwn eleni, yn wyneb y sefyllfa yn Gaza, Palesteina ag Israel, allwn ni wirioneddol ganu am Dawel Ddinas Bethlehem? Mae Bethlehm yn y Llain Orllewinol lle mae ymosodiadau dyddiol yn digwydd. Allwn ni o ddifri fynd i Fethlem; bawb dan ganu, neidio dawnsio a difyrru? Allwn ni ganu am glywed llu'r nef yn seinio – pan mae'r hyn sydd i'w glywed yng ngwlad yr Iesu heddiw ydy grwn dwfn dronau a ffrwydriadau cyson. Mi ganwn a welais di'r ddau a ddaeth gyda'r hwyr? Ond mewn girionedd dylem ofyn a welais di'r miloedd a ddaeth yn chwilio am loches – am gynhesrwydd – am gysur? Mae'r Gaeaf wedi cyrraedd Caernarfon go iawn – yn gynt nag arfer eleni. Ac mae'r Gaeaf yn cyrraedd Gaza hefyd – sy'n golygu bydd y sefyllfa ddyngarol yno yn dwyshau bob dydd.

Ond y gwir ydy – er ein bod yn canu am dawel ddinas Bethlehem ers blynyddoedd, doedd Bethlehem ddwy fil o flynyddoedd yn ôl ddim yn dawel mewn gwirionedd. Roeddd ymerodraeth ac arweinwyr rhyfelgar yn rheoli a chwalu bywydau.
Ac arwyddocad Gwyl y Geni ydy fod Duw, drwy Iesu Grist, yn dangos fod ffordd wahanol i'w chael na ffordd arferol y byd. Fod modd arwain drwy wasanaethu, fod yn bosib i frenin iselhau ei hun er mwyn unieithu â'r rhai gwanaf mewn cymdeithas, fod gwyleidd-dra yn fwy grymus na gorchest. Fod ffordd tangnefedd a goleuni yn drech na rhyfel a thywyllwch yn y pen draw.

Ac felly – efallai mai dyna lle mae tawelwch, a thangefedd y Nadolig – o amgylch y preseb wrth i ni syllu ar wyneb Duw mewn baban bach. Wrth i ni gofio mai Tywysog Tangnefedd yr yda ni'n ei addoli.

Yng nghynerdd carolau'r dre eleni canodd Côr Dre eiriau proffwydol Waldo Williams; Y Tangnefeddwyr. Geiriau ysgrifennodd wrth edrych lawr ar ddinas Abertawe ar ol iddi gael ei bomio yn ystod yr ail ryfel byd. Roedd Waldo yn heddychwr. A ryda ni angen ein hatgoffa fel Cymry y dyddiau yma, dwi'n credu, am ein traddodiad hir o heddychiaeth ac ymgyrchu dros heddwch fel cenedl. Felly pa adeg gwell na'r Nadolig i'n hannog i gyd i ymrwymo o'r newydd i gerdded ffordd Tywysog Tangnefedd.

**Gair gan y Gweinidog**

Gadewch i ni weddio gweddi a offrymwyd gan  Parch Hosam Naoum– Archesgob Anglicanaidd Jerwsalem  - n'ol ym Mis Hydref. Mae hi'n weddi am heddwch i bawb sy'n byw dan gysgod rhyfel a thrais heddiw. Mae ein meddyliau yng Ngwlad yr Iesu, ond cofiwn am bawb ar draws ein byd sy'n byw dan gysgod ofn rhyfel:

***Gweddiwn yn ddi-flino dros gyfiawnder, cymod, heddwch a'r diwedd ar gasineb a rhyfel.***
***Rydym hefyd yn gweddio ar i Dduw newid calonnau yr arweinwyr a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn ein gwledydd ac ar draws y byd.***
***Oherwydd rydym mewn angen mawr am galonnau sy'n caru,***
***am galonnau  sy'n dangos trugaredd ac sy'n barod i fyw mewn undod gydag eraill,***
***am galonnau sy'n parchu urddas pobol ac sy'n dewis bywyd yn hytrach na marwolaeth.*** AMEN

**Meddyliwn am ein haelodau sydd wedi  COLLI PERTHNAS**
Mr Alun a Haf Jones ym marwolaeth chwaer  Haf ac
eraill yn yr eglwys sydd wedi colli ffrindiau agos a pherthnasau .
**MEDDYLIWN HEFYD AM Y RHAI A FU YN YR YSBYTY**

| | |
|---|---|
| Mr George Jones, | Mrs  Jane Wilding, |
| Mrs Rhiannon Roberts, | Miss Viera Owen |
| Mrs Bethan Howel | Mr John Grisdale |

Danfonwn ein cyfarchion cynhesaf i'r rhai  **MEWN CARTREFI PRESWYL.**
Cartref  Marbryn  Caernarfon : Mr Gareth Lee.
Cartef Golwg y Wyddfa, Llanberis : Mrs Gweneirys Jones.
Cartref Bryn Rhos, Brynsiencyn : Mr Derwyn Roberts
Cyflwynwn ein cyfarchion cynhesaf i chi ac i'r rhai sy'n gaeth i'w cartref .

**LLONGYFARCHIADAU   i**
Mrs  Ann LL.Humphreys ar ddathlu ei phenblwydd yn 90 oed
Mr Elwyn a Mrs Lallie Griffiths ar ddathlu eu priodas Aur.
Wendy Ostler  yn Nain  famgu unwaith eto i Jim Spiro mab i Nora ac Alec
Gwen Lasarus  yn Nain unwaith eto i Myfi Nant merch i Greta a Pete



**CYFRANIADAU ARIANNOL.**

Erbyn hyn mae pawb wedi derbyn taflen gwybodaeth cyfraniadau  hyd  at ddiwedd Hydref  ynghyd a gwybodaeth  am Incwm a Gwariant yr eglwys. Anelwyd eleni i ddyblu swm a gasglwyd ar gyfer ein Apel Diolchgarwch. Cafwyd  ymateb cadarnhadol gan amryw o'r aelodau,  ond achos pryder yw'r nifer sydd ddim yn cyfrannu o gwbwl. Diolchwn am bob ymateb ac apeliwn ar i bob aelod geisio cyfrannu . Mae nifer  o ffyrdd i gyfrannu:
1. Trosglwyddiad banc gan ddefnyddio'r manylion :

**Côd y Banc ; 40-16-02 , Rhif y cyfrif i'w dalu- 70724556.**

Cofiwch roi enw a rhif aelodaeth fel cyfeirnod os gwelwch  yn dda .

2. Danfon siec /amlen   i'r trysorydd: Mr Alun Jones, Gwyddfan,

22 Llys Meirion, Caernarfon, LL55 1LE  yn dyladwy i :

**CAPEL SALEM CAERNARFON**.

3 Amlen melyn yn y casgliad ar y Sul.  Diolch yn fawr

Ffordd arall hawdd a  phoblogaidd o gynyddu gwerth eich cyfraniad yw drwy **RHODD GYMORTH ( Gift Aid )** . Yr unig  amod  yw eich bod  yn talu  treth incwm. I wneud hyn mae'r broses yn  syml – arwyddo  un ffurflen i **ychwanegu 25%** at werth  cyfanswm eich cyfraniad blynyddol.

Cysylltwch  ag Alun Jones os  dymunwch mwy o wybodaeth neu ffurflen gais.

Dalier sylw ;

***bydd llyfrau cyfrifon yr eglwys yn cau Sul ola'r flwyddyn  31 Rhagfyr 2023 .**

## HAFAN




Bu Capel y Maes ar agor bob dydd Mawrth (bron iawn) rhwng 12-3 yn ysto 2023.  Mae cyfle i unrhyw un alw mewn am sgwrs, cwmni, tawelwch/goleuo cannwyll. Bydd Hafan yn cau dros gyfnod y Nadolig ar 12/12. Ond bydd yn ail agor 16/1/2024. Amser Hafan yn 2024 fydd 12:30-2:30.  Os ydych am wirfoddoli efo Hafan, cysylltwch efo Mererid.

**RHEILINGS CAPEL SALEM**



Gobeithio eich bod wedi sylwi fod rheilings y capel yn edrych yn hardd iawn ers ychydig wythnosau!
Cychwynwyd y gwaith n'ol ym Mis Gorffennaf. Diolch i'r gwirfoddolwyr fu wrthi'n ddiwyd dros gyfnod o bedwar mis. Pe byddai Ifan y glaw wedi cadw draw buasem wedi gorffen ynghynt . Y gwirfoddolwyr oedd : Richard Parry, Llion Hywel, Peredur a Bedwyr Williams, Richard a Gwydion Outram, Aaron Williams , Emyr V Evans , George Jones , Ieuan Jones a'r Gweinidog. Tynnwyd y llun ar ddiwrnod gorffen y gwaith :25 ain o Hydref—does dim rhyfedd fod yna wen ddiddorol ar wyneb y tri ! Cyfeiriwyd at yr her fwy nag unwaith fel 'Marathon Rheilings Salem' . Arbedwyd cannoedd o arian i'r capel drwy wneud y gwaith ein hunan a bu cwmni **Premier Welding Supplies , Gaerwen** yn garedig wrthym. Doeddd gan y cwmni ddim cysylltiad â Salem ond pan alwodd Ieuan Jones yno am gyngor , profodd haelionu'r cwmni .Mae haelioni bob amser yn ein cyffwrdd.



**CYFARCHION NADOLIG**

**Dymuna deulu'r Gweinidogion Ron a Rhian, Mererid, Richard, Gwydion a Llywelyn, Heddwen, Aron, Seren, Deian ag Owain, bob tangefedd i chwi dros yr Wyl a blwyddyn newydd yn llawn gobaith**

***Daeth Crist i'n plith , O llawenhawn, a deued pawb ynghyd i'w dderbyn a'i gydnabod ef yn Geidwad i'r holl fyd'***



## Dydd arbennig i deulu Tŷ Capel Salem



Prynhawn Gwener, 24 Tachwedd, 2023 am 2. 30 yng nghapel Salem , Caernarfon, priododd Llion Rhys Howel a Bethan Mai Parry . Gweinyddiwyd yn y briodas gan weinidogion Salem; Mererid Mair, Ron a brawd Bethan; Dylan Rhys, gweinidog Tabernacl, Penybont ar Ogwr a Porthcawl. Cyflwynwn ein dymuniadau cynhesaf i Bethan a Llion ac i Elsi Mai, Begw Fflur a Lleu .'

**CYMDEITHAS Y BEIBL**

Gofynna Cymdeithas y Beibl i eglwysi neilltuo un Sul o'r flwyddyn i feddwl am waith y Gymdeithas ac ymateb i weddio dros y Gymdeithas ac ymateb i'r Apel ariannol flynyddol.Yn arferol defnyddiwn ail Sul yn nhymor yr Adfent i roi sylw i waith Y Gymdeithas ond eleni defnyddiwyd Sul olaf Tachwedd gan Mererid i wneud hynny . Derbynnir cyfranniadau trwy dalu'n syth i gyfrif capel Salem trwy law trysorydd yr eglwys;Mr Alun Jones, Gwyddfan, 22 Llys Meirion , Caernarfon.
**Manylion y Cyfrif : CÔD BANC I'W DALU 40 16 02**
**RHIF Y CYFRIF 70724556 / neu siec yn dyladwy i Capel Salem, Caernarfon neu arian mewn amlen . Cofiwch nodi 'Cyfraniad Cymdeithas y Beibl '**

**SAFWE CAPEL SALEM : Www.capelsalemcaernarfon.com**

**CYMDEITHASU / Y GYMDEITHAS**




Pan welwyd tocynnau'r noson 'roedd llawer yn holi 'Pwy yw S.A.M a Rh y Cwisfeistr.?Gyda chymaint yn holi cyhoeddwyd bore Sul cyn y noson mae S.A.M oedd **S**erern Lois , **A**lis Glyn a **M**ia Catrin a Rh oedd Rhys Prytherch . Mwynhawyd y noson yn fawr iawn ond ar y noson aeth y S.A.M. yn S.A.M.E. gan fod Elain Lois wedi cyfrannu drwy ganu deu-awd gyda'i chwaer Mia. Er mai Rhys Prytherch oedd y cwisfeistr pwysleisiodd mae Vera oedd wedi gwneud y gwaith called o greu y cwestiynnau! Diolch i Lis Jones a Nan Hughes am ofalu am y baned a'r mins pei ac i Vera Jones a Viera Owen am werthu'r tocynnau.





**AGOR Y LLYFR**



O'r diwedd! Mae criw Agor y Llyfr, Caernarfon wedi ail-gychwyn cyfarfod er mwyn paratoi straeon o'r Beibl i'w cyflwyno yn ysgolion cynradd y dre. Y stori gyntaf fydd Stori'r Nadolig, wrth gwrs. Byddwn yn trefnu rhaglen ar gyfer 2024 hefyd gan ymweld gydag holl ysgolion y dref, gobeithio. Os ydych yn dymuno bod yn rhan o Gynllun Prosiect Agor y Llyfr, nid yw'n ymrwymiad mawr. Mae'n golygu dod i un ymarfer ac yna mynd efo'r criw i wasanaeth mewn ysgol gynradd. Mae'n bosib i chi ymrwymo gymaint neu cyn lleied o amser ag sydd yn eich siwtio chi. Am fwy o fanylion, neu i ddangos diddordeb mewn ymuno—cysylltwch efo Mererid.



## GWEITHGAREDDAU TYMOR Y NADOLIG

**SUL 10 Rhagfyr** : Bore am 10 dan ofal y Gweinidog.
( Oedfa yn y Festri )
**SUL 17 Rhagfyr** : Bore am 10 yn y capel dan ofal y Gweinidog a'r aelodau . Bydd ymarfer drama Nadolig y Plant yn dilyn yr oedfa . Ar ddiwedd yr oedfa yn y festri bydd eisteddle cyntaf **Cinio Bara a Chaws .** Yr ail eisteddle i'r rhai fu'n ymarfer y ddrama Nadolig. Cesglir at APEL FFYNHONAU BYW ( CYMORTH CRISTNOGOL)
**SUL 24 Rhagfyr** . Bore am 10 : Drama Nadolig y plant . Bydd CASGLIAD RHYDD YR OEDFA'N MYND I'R YSGOL SUL
**SUL 25 Rhagfyr; Dydd Nadolig** Gwasanaeth yn y festri am 9.30 o'r gloch .( Neges i'r plant: Os bydd Sion Corn wedi bod, dowch ag anrheg i ddangos)
**SUL 31 Rhagfyr** . Bore am 10 yn y festri: Gwasanaeth dan ofal y Gweinidog.
**2024.**
**SUL 7 IONAWR** . Oedfa Gymun yn y bore am 10 o'r gloch yn y festri. Gwasanaeth dan ofal y Gweinidog.

**Cyngor Eglwysi Caernarfon 2024**
10 Ionawr 7 o'r gloch Cyfarfod Gweddi Dechrau'r Flwyddyn. Capel y Pentecostaliaid, Canolfan Gwyrfai, Stad Cibyn
21 Ionawr 10:30 : Oedfa Undebol Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol yn Eglwys Santes Fair 18
Chwefror 3 o'r gloch:Sul Cymdeithas yn Noddfa. Thema: Heddwch a Chymod. Siaradwraig i'w gadarnhau.

**Manylion Cysylltu drwy Zoom.**

**Mae manylion zoom oedfaon Salem yr un peth bob wythnos sef:**
**Oedfaon Salem: 899 6740 5728**
**Cyfrinair: 1588**
**Os am ymuno dros y ffôn:**
**Ffonio: 02034 815 237**
**yna deialu 899 6740 5728 # y**
**yna 1588#**
.

